

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Polisi Monitro ac Adolygu

Tabl Rheoli'r Ddogfen			
Teitl y ddogfen:	Polisi Monitro ac Adolygu		
Dogfen wedi'i hysgrifennu neu'n cael ei chynnal gan (enw'r tîm/adran):	Ansawdd a Safonau Academaidd / Academi Dysgu ac Addysgu		
Rhif y fersiwn:	Fersiwn 4		
Statws y Ddogfen:	Yn fyw		
Dyddiad cymeradwyo:	15 Mehefin 2022		
Cymeradwywyd gan:	Y Senedd		
Dyddiad dod i rym:	1 Awst 2024		
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Awst 2025		
Y fersiwn a ddisodlwyd:	Fersiwn 3		
Hanes y Ddogfen			
Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar Ddiwygiadau
V1	11/11/2020	Martine Woodward	Polisi cyffredinol newydd a sefydlwyd yn rhan o'r dadansoddiad o ddogfennau QER.
V2	15/07/2022	Martine Woodward	Diweddariadau blynyddol arferol yn ogystal â chywiriadau neu eglurhad (Senedd, Cofnod 979)
V3	03/07/2023	Martine Woodward	Diweddariadau rheolaidd blynyddol gan gynnwys ychwanegu polisi partneriaeth addysg sy'n disodli darpariaeth gydweithredol, astudio dramor, a pholisïau dysgu ar leoliad (ASQC, cofnod 1478).
V4	01/08/2024	Lloyd Hole / Michael Reade	<ul style="list-style-type: none"> Diweddariad i 'Cwmpas ac Eithriadau' i adlewyrchu Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch 2024 newydd. Diweddarwyd adran 7 yn dilyn adolygiad o Arholwyr Allanol (Cofnod ASQC 1532.4)

	Tudalen
Tabl Cynnwys	
Cwmpas ac Eithriadau	4
Adran 1: Egwyddorion Allweddol	7
Adran 2: Adolygu a Gwella Blynyddol	8
Adran 3: Y Fframwaith Rheoli Arolygon.....	10
Adran 4: Ailddilysu	12
Adran 5: Rhaglenni gyda phartneriaid allanol	13
Adran 6: Cyfranogiad myfyrwyr mewn monitro ac adolygu	15
Adran 7: Pwyntiau Cyfeirio Allanol	16

Cwmpas ac Eithriadau

O 1 Awst 2022, mae'r polisi hwn yn darparu trosolwg o'r prosesau monitro ac adolygu ar gyfer pob modiwl/rhaglen gyda chredydau sy'n arwain at ddyfarniad Prifysgol Caerdydd (gan gynnwys darpariaeth gydweithredol, astudio dramor a modiwlau/rhaglenni ar leoliad). Mae'n caniatáu inni archwilio'r hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella.

Mae monitro ac adolygu yn rhan allweddol o fecanweithiau'r Brifysgol ar gyfer rheoli ansawdd a safonau ac mae'n cadarnhau sut rydym yn parhau i fodloni ein gofynion rheoliadol a nodir yn y disgwyliadau a'r arferion yng Nghod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch a'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut mae ein prosesau monitro ac adolygu yn rhyng-gysylltiedig gan osgoi unrhyw ddyblygu gwaith diangen. Mae ein prosesau yn defnyddio data sydd ar gael trwy'r fframwaith rheoli arolwg, gwerthuso modiwlau a chanlyniadau, adroddiadau arholwyr allanol yn ogystal â barn cyrff achredu proffesiynol neu reoleiddiol i alluogi trafodaethau ar yr adeg briodol yn y cylch academaidd fel y gellir gweithredu ar unwaith pan fydd yn cael yr effaith fwyaf.

Eithriadau

Modiwlau/rhaglenni di-gredyd nad ydynt yn arwain at ddyfarniad Prifysgol Caerdydd

Mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o fodiwlau/rhaglenni nad ydynt yn cynnwys credydau, nad ydynt yn arwain at ddyfarniad Prifysgol Caerdydd. Disgwylir y bydd monitro ac adolygu'r holl ddarpariaeth nad yw'n cynnwys credydau yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn y Polisi hwn. Mae rhai rhaglenni nad ydynt yn cynnwys credydau wedi'u hachredu gan gyrff proffesiynol allanol ac o'r herwydd gallant hefyd fod yn ddarostyngedig i'w polisiâu a'u harferion o ran sicrhau ansawdd.

Trosolwg sefydliadol

Cymeradwywyd y Polisi hwn gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC) ym mis Mai 2022 ac fe'i cymeradwywyd gan y Senedd ym mis Mehefin 2022. Bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol sy'n gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ac i gyflawni'r disgwyliadau a'r arferion a nodir yng [Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU](#) ac adran 1.5 ac 1.9 o'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd yn llawn (ESG) ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol.

Mae ein prosesau monitro ac adolygu wedi'u hamlinellu yn erbyn disgwyliadau Côt Ansawdd y DU ac arferion craidd a chyffredin ochr yn ochr â'r cyngor ac arweiniad ategol ar gyfer [Dylunio a Datblygu Cyrsiau](#), [Partneriaethau](#), [Monitro a Gwerthuso](#), [Aseu](#), [Galluogi Myfyrwyr i Gyflawni](#), [Arbenigedd Allanol](#), [Ymgysylltu â Myfyrwyr](#) a [Dysgu yn y Gwaith](#) fel y bo'n briodol.

Yn ogystal, mae ein prosesau wedi'u mapio yn erbyn safon 1.9 o'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol gyda pherthynas benodol â monitro parhaus ac adolygu rhaglenni o bryd i'w gilydd.

Côd Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch

Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector
<p>Egwyddor 1: Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau</p> <p><i>Mae darparwyr yn dangos bod ganddynt ymagwedd strategol at ddiogelu safonau academiaidd, ynghyd â sicrhau a gwella ansawdd sydd wedi'i hymgorffori ar draws y sefydliad.</i></p>
<p>Egwyddor 2: Cynnwys myfyrwyr fel partneriaid</p> <p><i>Mae darparwyr yn cymryd camau bwriadol i gynnwys myfyrwyr fel partneriaid gweithredol wrth sicrhau a gwella ansawdd profiad dysgu myfyrwyr. Mae ymgysylltu yn digwydd yn unigol ac ar y cyd i ddylanwadu ar bob lefel o astudio a gwneud penderfyniadau. Mae gwelliannau a nodir trwy weithgareddau ymgysylltu â myfyrwyr yn cael eu gweithredu, lle bo'n briodol, a'u cyfathrebu i staff a myfyrwyr.</i></p>
<p>Egwyddor 3: Darparu adnoddau ar gyfer profiad dysgu o ansawdd uchel</p> <p><i>Mae darparwyr yn cynllunio, yn sicrhau ac yn cynnal adnoddau sy'n ymwneud â dysgu, technoleg, cyfleusterau a staffio i alluogi cyflwyno a gwella profiad dysgu hygyrch, arloesol o ansawdd uchel i fyfyrwyr sy'n cyd-fynd â strategaeth y darparydd a chyfansoddiad y corff myfyrwyr.</i></p>
<p>Egwyddor 4: Defnyddio data i lywio a gwerthuso ansawdd</p> <p><i>Mae darparwyr yn casglu, dadansoddi a defnyddio data ansoddol a meintiol ar lefel darparydd, adran, rhaglen a modiwl. Mae'r dadansoddiadau hyn yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau gyda'r nod o wella arferion a phrosesau sy'n ymwneud ag addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr.</i></p>
<p>Egwyddor 5: Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth</p> <p><i>Mae darparwyr yn monitro ac yn adolygu eu darpariaeth yn rheolaidd i sicrhau safonau academiaidd a gwella ansawdd. Cymerir camau bwriadol i ymgysylltu â myfyrwyr, staff ac arbenigwyr allanol, a'u cynnwys mewn gweithgarwch monitro a gwerthuso. Mae canlyniadau ac effaith y gweithgareddau hyn yn cael eu hystyried ar lefel darparydd i ysgogi myfyrio a gwelliant ar draws y darparydd.</i></p>
<p>Egwyddor 6: Ymwneud ag adolygu ac achredu allanol</p> <p><i>Mae darparwyr yn ymgymryd ag adolygiadau allanol i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd eu dull o reoli ansawdd a safonau. Mae adolygiadau allanol yn cynnig cipolwg ar gymaroldeb dulliau darparwyr ac yn cynhyrchu canlyniadau y gall darparwyr eu defnyddio i wella eu polisïau a'u harferion. Gall darparwyr gomisiynu adolygiadau, gallant fod yn rhan o fframwaith ansawdd cenedlaethol neu fod yn gysylltiedig â chydabyddiaeth broffesiynol ac yn cynnwys staff, myfyrwyr a chyfoedion yn weithredol. Gall sefydliadau cynrychioli, asiantaethau neu gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRBs) sydd ag arbenigedd cydnabyddedig yn y sector ymgymryd â'r adolygiadau hyn, gan ddibynnu ar y ddarpariaeth sy'n cael ei hadolygu.</i></p>

Egwyddor 7: Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni

Mae darparwyr yn dylunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni a modiwlau i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a safonau academaidd y dyfarniadau yn gyson â'r Fframwaith Cymwysterau perthnasol. Mae darparwyr yn sicrhau bod eu darpariaeth a lefel eu cymwysterau yn gymaradwy â'r rhai a gynigir ledled y DU a, lle bo'n berthnasol, Y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer Ardal Addysg Uwch Ewrop.

Egwyddor 8: Gweithredu partneriaethau gyda sefydliadau eraill

Mae darparwyr a'u partneriaid yn cytuno ar drefniadau cymesur ar gyfer llywodraethiant effeithiol i sicrhau'r safonau academaidd a gwella ansawdd y rhaglenni a'r modiwlau a gyflwynir mewn partneriaeth ag eraill. Mae sefydliadau sy'n ymwneud â threfniadau partneriaeth yn cytuno ac yn cyfathrebu cyfrifoldebau penodol y naill a'r llall mewn perthynas â chyflwyno, monitro, gwerthuso, sicrhau a gwella'r profiad dysgu.

Egwyddor 9: Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr

Mae darparwyr yn gweithredu prosesau recriwtio, dethol a derbyn sy'n dryloyw, yn deg ac yn gynhwysol. Mae darparwyr yn cynnal ac yn cyhoeddi gwybodaeth gywir, berthnasol a hygyrch am eu darpariaeth, gan alluogi myfyrwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu hastudiaethau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Egwyddor 10: Cynorthwyo myfyrwyr i gyflawni eu potensial

Mae darparwyr yn hwyluso fframwaith cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n eu galluogi i gael profiad dysgu o ansawdd uchel a chyflawni eu potensial wrth iddynt symud ymlaen yn eu hastudiaethau. Mae'r strwythur cymorth yn cynnal y daith ddysgu academaidd, bersonol a phroffesiynol, gan alluogi myfyrwyr i gydnabod a chyfleu eu cynnydd a'u cyflawniadau.

Egwyddor 11: Addysgu, dysgu ac asesu

Mae darparwyr yn hwyluso ymagwedd gydweithredol a chynhwysol sy'n galluogi myfyrwyr i gael profiad dysgu o ansawdd uchel ac i symud ymlaen trwy eu hastudiaethau. Mae pob myfyriwr yn cael cymorth i ddatblygu ac arddangos sgiliau a chymwyseddau academaidd a phroffesiynol. Defnyddir amryw o ddulliau wrth asesu sy'n ymgorffori gwerthoedd uniondeb academaidd, gan gynhyrchu deilliannau sy'n gymaradwy ar draws y DU ac a gydnabyddir yn fyd-eang.

Egwyddor 12: Gweithredu prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau

Mae darparwyr yn gweithredu prosesau ar gyfer cwynion ac apeliadau sy'n gadarn, yn deg, yn dryloyw ac yn hygyrch, ac wedi'u mynegi'n glir i staff a myfyrwyr. Caiff polisïau a phrosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau eu hadolygu'n rheolaidd, a defnyddir y deilliannau i gynorthwyo â gwella'r ddarpariaeth a phrofiad y myfyriwr.

Adran 1: Egwyddorion allweddol

Mae'r prosesau monitro ac adolygu a amlinellir yn y polisi hwn wedi'u cynllunio mewn perthynas ag egwyddor arweiniol o gyfrifolaeth, sy'n cefnogi prosesu busnes y Brifysgol yn effeithlon wrth sicrhau trylwyredd a chraffu priodol.

Rydym wedi ymrwmo i fonitro ein modiwlau a'n rhaglenni yn rheolaidd er mwyn:

- cynnal safonau academiaidd a pharhau i fodloni ein gofynion rheoliadol a nodir yn y disgwyliadau a'r arferion yng Nghod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch a'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol
- sicrhau bod aliniad parhaus â gofynion y BGC (Ile bo hynny'n berthnasol)
- hwyluso gwelliant parhaus yn y ddarpariaeth i adlewyrchu datblygiadau yn y sector, y sefydliad, a'r ddisgyblaeth

Rydym yn cydnabod bod y broses o fonitro a gwella modiwlau a rhaglenni yn ailadroddol ac yn digwydd trwy ystod o fecanweithiau anffurfiol a ffurfiol. Mae monitro ac adolygu yn rhoi cyfle diffiniedig i Golegau ac Ysgolion gymryd golwg gyfannol o'r modiwl/rhaglen(ni) a'r amgylchedd lle mae dysgu ac addysgu yn digwydd, gan dynnu ynghyd dystiolaeth ac arsylwadau o ystod o ffynonellau mewnol ac allanol, er mwyn nodi'r camau sydd i'w cymryd ac adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn ôl yr angen.

Mae monitro ac adolygu yn broses academiaidd sy'n cael ei hategu gan adolygiad cymheiriaid a chynnwys myfyrwyr yn wybodus. Mae monitro modiwlau a rhaglenni yn canolbwyntio ar risg ac yn cyd-fynd ag Is-Strategaeth Addysg y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor Safonau Academiaidd ac Ansawdd (ASQC) yn gyfrifol am fonitro dangosyddion craidd ansawdd a safonau ar draws y sefydliad gan adrodd yn flynyddol i'r Senedd a'r Cyngor ar berfformiad trwy'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol.

Adran 2: Adolygu a Gwella Blynyddol

Mae'r broses flynyddol o adolygu a gwella (ARE) yn rhoi'r cyfle i bob Ysgol, Coleg a Phrifysgol oedi a myfyrion ar ein darpariaeth addysg - beth sydd wedi gweithio'n dda a pha newidiadau sydd angen eu rhoi ar waith?

Cydlynir y broses ar lefel Coleg ac fe'i datblygir o gwmpas portffolio o dystiolaeth sy'n gysylltiedig â gofynion rheoleiddiol sylfaenol a gweithgareddau gwella sefydliadol. Mae ein dull diwygiedig yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

Ar sail tystiolaeth

Mae'r broses yn defnyddio amrywiaeth o ddata sy'n sail i bob maes ffocws, gan eich galluogi i gael dull gweithredu strategol a lleol i adolygu a datblygu. Bydd Ysgolion yn gallu trafod y data yr adeg mae'n dod ar gael gan roi cyfle i chi wneud argymhellion a gweithrediadau pan fydd yn cael y mwyaf o effaith.

Cyfraneddol

Dyluniwyd y broses i gyfrif am faint a siâp pob Ysgol - nid dull 'un maint i bawb' yw hwn. Mae'n bwysig bod pob Ysgol yn myfyrion ar yr holl ddata, ond ni fydd angen i gynlluniau gweithredu oni bai bod y data'n nodi bod y canlyniadau'n ffiniol neu'n is na'r meincnod yn unig.

Yn amserol

Yn hytrach na llunio un adroddiad ARE Ysgol bob blwyddyn, mae'r broses wedi'i llunio i alluogi trafodaethau pan fydd y data'n dod ar gael. Mae hyn yn osgoi unrhyw achosion o ddyblygu ymdrechion a gellir rhoi trafodaethau canlyniadau ar waith heb orfod aros tan ddiwedd y cylch academaidd.

Cysylltiadau

Mae trafodaethau a gynhelir drwy'r Fframwaith Rheoli Arolwg a Gwella Modiwlau wedi cael eu hintegreiddio i'r broses ARE ac felly'n osgoi ailadrodd ac yn ein galluogi i gael ffocws strategol. Mae hyn yn rhoi dull gweithredu cyson ar draws y sefydliad i gynllunio camau gweithredu a monitro a gaiff eu cofnodi drwy gwblhau un Cynllun Gwella Profiad y Myfyrwyr Ysgol (SEEP)/cofnod gweithredu.

Meysydd ffocws dan sylw

Caiff y meysydd ffocws eu hadolygu bob blwyddyn gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac mae cysylltiadau clir â gofynion rheoleiddiol allanol a gweithgaredd gwella sefydliadol.

Cynllunio Gweithredu

Anogir ysgolion i fod ag agwedd gydweithredol wrth ddatblygu eu Cynllun Gwella Profiad Myfyrwyr neu'r cofnod gweithredu gan ganiatáu ar gyfer rhannu cyfrifoldeb am bob gweithred. Fe'i cynlluniwyd i fod yn ddogfen fyw, weithredol gyda'r ffocws ar ddatblygu nifer gyfyngedig o gamau SMART y gall pob Ysgol eu cyflawni'n hyderus. Dylai ganolbwyntio ar sut caiff unrhyw strategaethau ymyrraeth eu hadolygu a'r effaith ei hasesu gan nodi amserlenni penodol.

Trosolwg sefydliadol

Yng nghyfarfod olaf y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn cael adroddiadau ARE y Coleg sy'n darparu trosolwg o drafodaethau ag Ysgolion gan gynnwys sicrwydd y bydd Ysgolion a nodwyd fel 'mewn perygl' o ddisgyn yn is na'r meincnod mewn sawl maes ffocws, yn cael cynlluniau gweithredu sy'n mynd i'r afael yn benodol â meysydd i'w gwell ynghyd ag amserlenni gwerthuso.

Yn ogystal, mae pob Coleg yn darparu trosolwg o weithrediad y broses, gan adrodd ar feysydd cryfder a meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach yn yr [Adroddiad Ansawdd Blynyddol](#) a gyflwynir i'r Senedd a'r Cyngor.

Adran 3: Y Fframwaith Rheoli Arolygon

Mae'r Fframwaith Rheoli Arolwg yn darparu gwell sicrwydd ynghylch rheolaeth a chamau gweithredu canlyniadau arolwg, ynghyd â fframwaith i ddathlu a rhannu'r arfer rhagorol sy'n amlwg. Nodweddir y dull hwn gan:

- ryddhau data yn amserol a ffocws ar berfformiad sector/meincnod.
- trafodaethau strwythuredig gydag Ysgolion i ganolbwyntio ar berfformiad rhagorol; a meysydd a allai fod angen gwella a chefnogi.
- dull cyson ar draws y sefydliad o gynllunio a monitro gweithredu.

Llais y Myfyrwyr

Mae'r Fframwaith Rheoli Arolygon yn defnyddio ystod o ddata llais myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau NSS, PTES a PRES i gynnal trafodaethau gyda phob Coleg a phob Ysgol. Mae pob Ysgol yn paratoi Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr (SEEP) gan adlewyrchu ar y canlyniadau ac unrhyw gamau sy'n dilyn. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi sicrwydd i ni fod profiad y myfyriwr yn cael ei reoli a'i wella. Yn ogystal, mae pob un o'r tri Choleg yn adlewyrchu'r cwestiynau hynny sy'n perfformio o dan y meincnod.

Gwella Modiwlau

Mae Gwella Modiwlau yn caniatáu i staff gasglu adborth gan fyfyrwyr ar lefel fodiwlaidd. Mae ymgysylltu â'n myfyrwyr a chymryd amser i gasglu ac ymateb i adborth yn agwedd hanfodol ar yr is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr ac yn un o'r ffyrdd y gallwn ddangos ein bod yn gweithredu ar adborth myfyrwyr. Drwy wrando ar ein myfyrwyr, a gweithio ar y cyd â nhw, gallwn ni fod yn weithredol o ran gwella profiad myfyrwyr.

Hwylusir canlyniadau trafodaethau ar ddata Gwerthuso Llais a Gwella Modiwlau trwy'r broses ARE i ganiatáu monitro camau mwy systematig mewn ymateb i adborth modiwl ac arolwg gan fyfyrwyr. Mae'r dadansoddiad o ddata meintiol ac ansodol yn nodi meysydd posibl ar gyfer gweithredu ac yn tynnu sylw at arfer da ac yn sicrhau bod camau y cytunwyd arnynt yn cael eu tracio a bod effaith y camau a gymerir yn cael eu hasesu mewn cyfnodau adolygu dilynol mewn cylch gwella parhaus.

Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil

Mae ein Polisi a'n Gweithdrefn ar Fonitro Myfyrwyr Ymchwil yn canolbwyntio ar fyfyrwyr, yn bwrpasol ac yn ategu'r monitro parhaus sy'n rhan o oruchwyliaeth reolaidd. Mae'n cynnwys system o adrodd, adolygu ac adborth rheolaidd, wedi'i adeiladu o amgylch Cynllun Ymchwil y myfyriwr, ac mae'n orfodol i bob myfyriwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer graddau ymchwil (ac eithrio PhD gan Waith Cyhoeddedig a rhaglenni sydd wedi'u strwythuro'n helaeth ac sy'n cynnwys elfennau sylweddol a addysgir a amserlenni asesu adeiledig, megis MRes, DClinPsy, DEdPsy) gan gynnwys ymgeiswyr amser llawn, rhan-amser a staff.

Mae'r Weithdrefn yn cynnwys Adolygiad Cychwynnol (a gynhelir yn y flwyddyn gyntaf yn unig), Adolygiad Blynyddol ac Adolygiad Dros Dro (a gynhelir hanner ffordd rhwng yr Adolygiadau Blynyddol). Mae'r digwyddiadau monitro yn rhoi cyfle i'r myfyriwr a'i oruchwyliwr/goruchwylwyr fyfyrion ar gynnydd yn ystod y cyfnod adrodd, ail-werthuso anghenion hyfforddi, diweddarau'r Cynllun Ymchwil, a chodi pryderon am y trefniadau academaidd neu ymarferol i gefnogi'r prosiect. Mae'n caniatáu i'r myfyriwr a'i Ysgol fod yn hyderus bod y myfyriwr yn parhau i symud ymlaen ar gyfradd foddhaol a bod y trefniadau academaidd ac ymarferol sy'n cefnogi eu rhaglen yn parhau i fod yn ddigonol.

Os ystyrir cynnydd yn anfoddhaol, neu os bydd myfyriwr yn methu â chydymffurfio â gofynion y Weithdrefn, bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig yn cwrdd â nhw i archwilio'r pryderon a llywio camau gweithredu priodol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r myfyriwr ddangos ei fod yn gallu gwella ei berfformiad yn erbyn set o amcanion yn ddigon da i aros wedi cofrestru ar y rhaglen.

Trosolwg sefydliadol

Mae monitro ac adolygu modiwlau a rhaglenni gan gynnwys ein rhaglenni ymchwil ôl-raddedig trwy broses ailddilysu newydd a Fframwaith Rheoli Arolwg integredig a Fframwaith Gwerthuso Modiwlau yn darparu mecanwaith cadarn wedi'i seilio ar dystiolaeth i Ysgolion fynd i'r afael ag unrhyw faterion ac i gynllunio gwelliannau i brofiad y myfyriwr.

Mae'r dull rhyng-gysylltiedig hwn yn bennaf trwy'r broses Adolygu a Gwella Blynyddol, yn sicrhau bod cynlluniau gweithredu Ysgolion yn cael eu monitro ar lefel sefydliadol ac yn parhau i fod yn unol â gofynion y Safonau a'r Canllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd (ESG) Rhan 1 (para 1.9) a'r disgwyliadau penodol ar gyfer safonau ac ansawdd a amlinellir yng Nghod Ansawdd y DU.

Adran 4: Ailddilysu rhaglenni

Bydd ailddilysu rhaglenni o fewn amserlen weithgaredd ddiffiniedig yn rhoi cyfle i Ysgolion sicrhau bod eu portffolio o raglenni yn parhau i fod yn ffit yn strategol ac yn academiaidd at y diben yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Adolygiad trylwyr o bob portffolio Ysgolion gan sicrhau bod aliniad strategol â blaenoriaethau'r Brifysgol.
- Mae pwmpas a nodau'r rhaglenni yn parhau i fod yn berthnasol ac wedi'u halinio â datganiadau meincnod pwnc.
- Mae'r cynnwys a'r canlyniadau dysgu yn parhau i fod yn briodol ac ystyried effaith gronns newidiadau, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Astudiaethau, i raglenni a wneir dros amser.
- Mae strwythurau rhaglenni a rheolau rhaglenni yn parhau i gael eu halinio â rheoliadau'r Brifysgol ac yn ymgorffori egwyddorion strwythur, dylunio a darparu rhaglenni Prifysgol Caerdydd, a phriodoleddau graddedigion Caerdydd, wrth gadw at y canllawiau ar asesu a'r strategaeth addysg ddigidol.
- Lle bo hynny'n berthnasol, mae rhaglenni'n cwrdd â gofynion PSRB ac yn barod i'w hachredu.
- Mae gwybodaeth y rhaglen a gyhoeddir yn parhau i fod yn gyfredol ac yn gywir, yn unol â'n cyfrifoldebau o dan y Gyfraith Diogelu Defnyddwyr.

Mae gan ailddilysu berthynas symbiotig â'r broses Adolygu a Gwella Blynyddol a'r broses Datblygu Rhaglenni wrth gefnogi Ysgolion lle amlygwyd bod angen newidiadau mawr i raglen neu lle mae Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio (PSRB) wedi gwneud argymhellion sylweddol.

Trwy'r broses ailddilysu, gellid cyflawni unrhyw raglenni sydd angen newidiadau mawr i strwythur, dyluniad neu gyflwyniad heb orfod dyblygu ymdrech trwy'r broses ddatblygu rhaglenni gyfochrog.

Trosolwg sefydliadol

Fel yr amlinellwyd yn Adran 1, bydd y Pwyllgor Safonau Academiaidd ac Ansawdd yn derbyn adroddiadau ailddilysu Colegau sy'n darparu trosolwg o drafodaethau gydag Ysgolion gan gynnwys sicrwydd bod pob rhaglen yn parhau i fod yn addas yn bwrpasol yn strategol ac yn academiaidd.

Yn ogystal, mae pob Coleg yn darparu trosolwg o weithrediad y broses, gan adrodd ar feysydd cryfder a meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach yn yr [Adroddiad Ansawdd Blynyddol](#) a gyflwynir i'r Senedd a'r Cyngor.

Adran 5: Rhaglenni gyda phartneriaid allanol

Rydym yn parhau i weithio gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys sefydliadau addysgol, yn y DU a thramor. Mae'r cydweithrediadau hyn yn caniatáu i'n myfyrwyr ennill profiad gwerthfawr mewn amgylchedd gwaith neu astudio.

Ystyriaeth allweddol wrth adolygu gweithgarwch ar y cyd yw p'un a yw cydweithredu â phartner yn fygythiad i safonau academiaidd y Brifysgol a phrofiad y myfyrwyr, ac yn sgil hynny, enw da'r Brifysgol. Mae diogelu'r rhain yn hollbwysig a rhaid gwneud yn siŵr mai dyna yw'r brif ystyriaeth wrth werthuso buddiannau unrhyw fath o gydweithredu.

Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg wrth reoli ein trefniadau partneriaeth addysg, gyda pholisïau sefydledig, gan sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r disgwyliadau a'r arferion craidd a chyffredin a amlinellir yng Nghod Ansawdd y DU, a'r cyngor a'r arweiniad ategol ar Ddylunio a Datblygu Cwrs, Partneriaethau, Monitro a Gwerthuso, Asesu, Galluogi Cyflawniad Myfyrwyr, Arbenigedd Allanol, Ymgysylltu â Myfyrwyr a Dysgu yn y Gwaith.

Adroddiadau cymedrolwr ar gyfer rhaglenni addysg a addysgir.

Mae gan bob partneriaeth gydweithredol a addysgir Gymedrolwr a benodir gan ASQC. Fel rheol, bydd y Cymedrolwr yn uwch academydd o Goleg gwahanol gyda deiliadaeth am oes y cytundeb.

Bydd y Safonwr yn ymweld â'r sefydliad partner bob blwyddyn, ac yn darparu adroddiad ar gyfer pob blwyddyn o'r rhaglen neu'r trefniant. Mae'r Safonwr yn gweithredu ar ran y Brifysgol ac mae'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Astudio/Bwrdd yr Ysgol priodol cyn ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor Partneriaeth Addysg sy'n atebol i'r ASQC. Trwy'r adroddiad, bydd pob Cymedrolwr yn darparu dadansoddiad o:

- ansawdd y rhaglenni a'r safonau a gyflawnir gan fyfyrwyr yn y sefydliad partner yn gymesur â'r rhai yn y Brifysgol;
- effeithiolrwydd y trefniadau cyfathrebu, y trefniadau rheoli a'r trefniadau gweithredol sy'n sail i'r ddarpariaeth;
- unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen ar y sefydliad partner i weithredu a chynnal gofynion sicrhau ansawdd a gwelliant Prifysgol Caerdydd.

Bob blwyddyn, bydd y safonwr yn cynhyrchu adroddiad yn ymdrin â'r sesiwn academiaidd flaenorol ac mae'n ofynnol i'r Ysgol ddarparu ymateb i'r adroddiad yn unol â phrosesau tebyg, fel y rhai ar gyfer Arholwyr Allanol. Mae'n rhaid i'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan yr Ysgol mewn ymateb i adroddiad Safonwr gael eu hadrodd drwy'r broses Adolygiad a Gwelliant Blynnyddol. Yn ogystal, mae ein Byrddau Arholi yn derbyn adroddiadau arholwyr allanol i gadarnhau safon y dyfarniadau.

Cofnodir manylion yr holl gytundebau cydweithredol ffurfiol a addysgir ar ein Cofrestr Darpariaeth Gydweithredol, a gyhoeddir ar ein tudalennau gwe gwybodaeth gyhoeddus gyda phob trefniant yn nodi ei statws cysylltiedig, y math o gydweithrediad a'i risg. Mae hwn yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol ar ôl derbyn adroddiad y safonwr.

Goruchwyliaeth sefydliadol o bartneriaethau a rhaglenni cydweithredol a addysgir

Mae ein his-bwyllgor partneriaeth addysg yn goruchwyllo'r holl drefniadau partneriaeth addysg o safbwynt y Brifysgol (gan gynnwys astudio dramor). Mae hyn yn cynnwys craffu a, lle bo'n briodol, cymeradwyo cytundebau ar gyfer darpariaeth addysg newydd a/neu bresennol gyda phartneriaid. Mae'r is-bwyllgor yn sicrhau bod adolygiad cylchol o'r holl ddarpariaeth bartneriaethau a threfniadau llywodraethu addysg cysylltiedig a amlinellir yn y Rheoliadau Academaidd a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r Pwyllgor Safonau Academaidd ac Ansawdd yn derbyn adroddiadau Coleg ARE yn ychwanegol at adroddiadau gan y Rhaglen a'r Panel Sefydlog Partneriaid ar feysydd cryfder a meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach yn yr [Adroddiad Ansawdd Blynyddol](#) a gyflwynir i'r Senedd a'r Cyngor.

Adran 6: Cyfranogiad myfyrwyr mewn monitro ac adolygu

Rydym yn falch o'n lefel o ymgysylltiad â'n corff myfyrwyr, gan roi cyfle i fyfyrwyr rannu eu barn a chymryd rhan fel partneriaid yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'n elfen bwysig o'n system llywodraethu academiaidd ac ansawdd ac yn cyflawni'r disgwyliadau a amlinellir yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU, gan dynnu sylw at y ffaith bod "darparwyr yn cymryd camau bwriadol i ymgysylltu â phob myfyriwr, yn unigol ac ar y cyd, fel partneriaid i sicrhau a gwella eu profiad addysgol".

Mae myfyrwyr yn aelodau sefydledig o'n pwyllgorau llywodraethu allweddol, gan gynnwys: Cyngor; Senedd; ASQC, a'i is-bwyllgorau. Mae myfyrwyr hefyd yn chwarae rhan allweddol yn ein prosesau sicrhau ansawdd, gan chwarae rhan weithredol yn ARE, Aiddilysu, mae ein his-bwyllgor Cymeradwyo ac Aiddilysu Rhaglenni.

Mae'r system cynrychiolwyr academiaidd myfyrwyr yn aeddfed ac wedi'i hymgorffori, ac mae'n sicrhau bod myfyrwyr hefyd yn gallu darparu mewnbwn ar lefel Ysgol, trwy Baneli Myfyrwyr-Staff. Mae cynrychiolwyr academiaidd myfyrwyr yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi gan Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r cyfraniad gweithredol a wneir gan ein myfyrwyr at wella dysgu ac addysgu a'n system ansawdd academiaidd yn sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan ac yn adlewyrchu persbectif y myfyriwr. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau a wneir gan ein myfyrwyr sy'n ein cefnogi i ddatblygu a darparu rhaglenni arloesol o ansawdd uchel.

Adran 7: Pwyntiau Cyfeirio Allanol

Arholwyr Allanol

Mae [arholi allanol](#) yn chwarae rhan allweddol wrth gynnal ein safonau academiaidd, a dyma ofyniad rheoleiddio hanfodol wrth inni ddarparu allanoldeb yn ein prosesau monitro ac adolygu.

Mae'r rheini a benodir yn arholwyr allanol yn arbenigwyr yn eu maes. Maent yn gweithio ym myd addysg uwch, byd diwydiant neu gyrff proffesiynol ac yn rhoi trosolwg annibynnol a chyingor gwerthfawr. Maent hefyd yn gallu cynnig barn gytbwys ynghylch sut mae ein safonau yn cymharu â'r un dyfarniadau neu rai tebyg mewn prifysgolion eraill. Y brif ffordd y bydd arholwyr allanol yn sicrhau safonau darpariaeth ein haddysgu a'n hymchwil yw drwy gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig.

Arholwyr Allanol Rhaglenni a Addysgir

Gofynion ynghylch Arholwyr Allanol

Mae'n rhaid i bob Bwrdd Arholi sy'n ystyried modiwlau neu unedau astudio sy'n cyfrannu at y dyfarniad terfynol benodi o leiaf un arholwr allanol. Wrth benderfynu ar nifer yr arholwyr allanol i'w penodi, mae'n rhaid ystyried natur a maint y rhaglen a chael cymeradwyaeth y Pennaeth Ansawdd a Safonau ar ran y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd.

Y Bwrdd Astudiaethau perthnasol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod arholwyr allanol yn cael eu penodi'n briodol, a hynny'n rhan o'i rôl wrth reoli rhaglenni, fel yr amlinellir yn y [Rheoliadau Rheoli Academiaidd](#). Mae modd dirprwyo'r cyfrifoldeb dros gyflwyno enwebiadau i aelodau perthnasol o staff yr ysgol ar ran y Byrddau Astudiaethau.

Rôl Arholwyr Allanol Rhaglenni a Addysgir

Mae arholwyr allanol yn aelodau llawn a chydardd o'r Byrddau Arholi, ac maent yn gwneud cyfraniad pwysig i gyfrifoldeb y Bwrdd Arholi dros fonitro ansawdd a safonau dyfarniadau a gwneud argymhellion ynghylch gwella ansawdd a safonau. Er nad oes gan arholwyr allanol yr hawl i atal penderfyniadau'r Bwrdd, dylai Byrddau Arholi ystyried unrhyw argymhellion a wneir ganddynt yn ofalus.

Un agwedd allweddol ar y rôl hon sicrhau safonau a phrosesau, gan gynnwys dadansoddi data ac adrodd. Rôl yr arholwyr allanol yw sicrhau bod prosesau asesu'n ddilys, yn ddibynadwy ac yn eglur. Mae disgwyl iddynt roi sylwadau llawn gwybodaeth ac argymhellion ar y canlynol:

- Safonau'r corff dyfarnu graddau a pherfformiad myfyriwr mewn perthynas â'r safonau hynny.
- Cymhwyso polisïau a gweithdrefnau yn gyson ac yn deg, gan sicrhau uniondeb a manwl gywirdeb yr arferion academiaidd

- Arferion da a gwelliannau posibl.

Nodir dyletswyddau penodol arholwyr allanol, yn ogystal â'r disgwyliadau o ran ymgysylltu a chefnogi yn y Weithdrefn ar gyfer Arholwyr Allanol (Rhaglenni a Addysgir).

Adolygu'r Broses o Farcio a Chymedroli Asesiadau

Mae'n ofynnol i Ysgolion roi gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau y caiff asesiadau eu marcio a'u cymedroli'n ddibynadwy, gan gynnwys adolygiad priodol gan arholwyr allanol, yn unol â [Pholisi Marcio a Chymedroli'r](#) Brifysgol.

Adroddiadau Blynyddol

Mae'n ofynnol i arholwyr allanol gyflwyno Adroddiad yr Arholwr Allanol i'r Brifysgol yn flynyddol. Fel arfer, disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno yn dilyn cyfarfod prif Fwrdd Arholi Dyfarniadau rhaglen.

Bydd y Pennaeth Ansawdd a Safonau Academaidd ar ran yr Is-Ganghellor yn rhoi ymateb sefydliadol i bob Arholwr Allanol, gan fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd. Bydd adroddiadau'r Arholwyr Allanol yn cael eu trafod ym Mwrdd Astudiaethau pob Ysgol yn ogystal ag adolygiad mwy cyfannol drwy'r broses Adolygu a Monitro Flynyddol. Bydd y Pennaeth Ansawdd a Safonau Academaidd yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC) y Brifysgol ar:

- Weithredu'r gweithdrefnau ynghylch ymdrin ag adroddiadau'r arholwyr allanol;
- Cydymffurfiaeth yr Ysgolion â gofynion y gweithdrefnau hyn.
- Themâu sefydliadol sy'n deillio o faterion sy'n codi pryder ac arferion gwerth sylw arnynt a gafwyd yn adroddiadau'r arholwyr allanol.
- Nodir y prosesau ynghlwm wrth dderbyn adroddiadau arholwyr allanol ac ymateb iddynt yn y Weithdrefn ar gyfer Arholwyr Allanol (Rhaglenni a Addysgir).

Arholwyr Allanol Graddau Ymchwil

Yn achos graddau ymchwil, penodir arholwyr allanol i asesu traethodau ymchwil a gyflwynir i'w harholi mewn ffordd ddiuedd ac annibynnol, ac i roi sylwadau ar gymaroldeb ansawdd a safonau rhaglen gradd ymchwil y Brifysgol mewn perthynas â darparwyr eraill yn y DU y dylai'r arholwr fod â phrofiad ohonynt fel rheol. Gofynnir hefyd i Arholwyr Allanol roi sylwadau ar feysydd arferion da a gwneud argymhellion ar welliannau. Adolygir yr adroddiadau gan dîm ymchwil ôl-raddedig pwrpasol yn yr Adran Llywodraethu Addysg, ac adroddir am unrhyw sylwadau gwerth sylw arnynt neu dueddiadau ymddangosol i Ddeon Ôl-raddedig y Coleg perthnasol.

Achrediad

Mae gennym ystod o raddau a addysgir ac ymchwil sydd wedi'u hachredu gan gyrff allanol ac o ganlyniad mae'n ofynnol i ni dystiolaethu bod ein rhaglenni'n cwrdd â

safonau a meini prawf y corff achredu i sicrhau bod y myfyrwyr sy'n graddio o'r cymhwysedd priodol i fynd ymlaen yn eu proffesiwn a ddewiswyd.

Mae gan achrediad ffocws deul; un i sicrhau'r safonau academiaidd ac alinio â'r safonau meincnod a fframwaith cymwysterau priodol a'r llall i sicrhau bod yr holl safonau proffesiynol yn cael eu bodloni. I lawer o raglenni achrededig, cwblheir adolygiad o'r rhaglen ar sail gylchol sy'n sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn diwallu anghenion gofynion y corff academiaidd a phroffesiynol. Mae'r defnydd o arbenigedd allanol ychwanegol yn ategu ein proses ddatblygu rhaglenni gadarn i sicrhau prosesau asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn dryloyw. Ymdrinnir â hyn hefyd trwy ein Hadroddiadau Arholwyr Allanol gan gyfeirio'n benodol at achredu safonau'r corff.

Mae gan bob rhaglen sy'n derbyn achrediad trwy gorff statudol neu reoleiddio proffesiynol amserlen glir i'w hadolygu ac maent wedi'u rhestru ar ein [gwefan gwybodaeth gyhoeddus](#).

Trosolwg sefydliadol

Y Bwrdd Astudiaethau sy'n adolygu ac yn monitro holl adroddiadau Arholwyr Allanol ac achredu. Amlygir unrhyw faterion a meysydd arfer da yn y broses ARE yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau gradd a safonau academiaidd ein modiwlau/rhaglenni.

Mae defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol yn ein dull aml-haenog, rhyng-gysylltiedig o fonitro ac adolygu yn arwain at welliant parhaus i'n rhaglenni sy'n cyflawni'r amcanion a osodwyd ar eu cyfer ac yn ymateb i anghenion myfyrwyr.

Mae cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd trwy'r broses Adolygu a Gwella Blynyddol yn rhoi trosolwg cynhwysfawr i'r Ysgol, y Coleg a'r Brifysgol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ym mhob Ysgol a defnyddir y rhain fel pwyntiau ffocws ar gyfer datblygu strwythuredig.